**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 26ain Awst 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am ofynion ail flwyddyn y Cynllunio Integredig Rheoli Risg ac awgrymu meysydd i'w datblygu ac i edrych arnynt ymhellach cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yn Rhagfyr 2002 fe wnaeth y Dirprwy Brif Weinidog hi'n glir y dylid cael rhaglen i ddiwygio a moderneiddio'r fframwaith y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn gweithredu o'i fewn. Un o elfennau allweddol y rhaglen honno oedd yr angen i awdurdodau tân lunio Cynlluniau Integredig Rheoli Risg.

1.2 Bu aelodau'r Panel Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2003 i lunio Cynllun Risg cyntaf yr Awdurdod. Cafodd y Cynllun drafft ei gyhoeddi, bu ymgynghori yn ei gylch, gwnaethpwyd gwelliannau iddo ac yn y diwedd cafodd ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan yr Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2004.

1.3 Diben y papur hwn yw rhoi gwybod i'r aelodau am ofynion y Cynllun Risg yn ei ail flwyddyn, ac awgrymu rhai meysydd a fyddai'n adeiladu ar y gwelliannau sydd, ac a weithredwyd, yn y Cynllun Risg cyntaf ac yn eu hatgyfnerthu.

2. **GOROLWG**

2.1 Fel gyda'r Cynllun Risg cyntaf, mae gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun gweithredu. Fodd bynnag, disgwylir i'r cynllun gweithredu ail flwyddyn ategu at ganfyddiadau'r Cynllun Risg cyntaf a mynd â nhw yn eu blaenau, nid gwneud newidiadau sylfaenol iddo na'i ddisodli.

2.2 Mae'r etholiadau lleol diweddar a'r newid sydd i broffil yr Awdurdod Tân o'r herwydd wedi arwain at gywasgu'r drefn o lunio cynllun gweithredu ail flwyddyn y Cynllun Risg o fewn yr amser sydd ar gael.

2.3 Felly, o anghenraid, ac yn wahanol i'r Cynllun Risg cyntaf, rydym yn awgrymu'r meysydd i'r Panel Gweithredol. Y bwriad yw datblygu'r meysydd ymhellach dros y misoedd sydd i ddod, a thrwy hynny, gadw cysondeb rhwng amcanion strategol yr Awdurdod Tân a Fframwaith Cenedlaethol Drafft y Gwasanaethau Tân ac Achub ar gyfer Cymru.

3. **MEYSYDD**

Dyma'r meysydd fyddai'n adeiladu ar Gynllun Risg presennol yr Awdurdod Tân ac yn ei ategu:-

3.1 Datblygu cyfundrefn gynllunio Diogelwch Tân Cymunedol mewn haenau fel rhan o'r strwythur reolaethol newydd sydd yn canolbwyntio ar ddiogelwch i fywyd a risgiau penodol, a sicrhau cynllunio wedi ei deilwra i ardal pob awdurdod unedol.

3.2 Datblygu patrwm Gofal Argyfwng y Gwasanaeth Tân (FSEC) a ddarparwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) i greu cronfa wybodaeth ar gyfer bod yn sail i wneud penderfyniadau, lleoli a threfnu adnoddau. Rhoddwyd yr FSEC i'r gwasanaethau tân ac achub ychydig cyn cwblhau trefn y Cynllun Risg cyntaf.

3.3 Chwilio am gyfleoedd i gydweithio gyda'r gwasanaethau tân ac achub sydd yn ffinio â ni er mwyn i gynlluniau gweithredu a rheoli risg yn Swydd Gaer, Swydd Amwythig, a Chanolbarth a Gorllewin Cymru allu rhoi'r mwyaf i ni o ran gweithredu ac ategu rheoli risg o fewn Gogledd Cymru. Dyma faes gweithgarwch y mae'r ODPM a'r Comisiwn Archwilio yn tynnu sylw ato.

3.4 Mabwysiadu'n llawn a defnyddio'r cyfarwyddyd archwilio Diogelwch Tân a ddaeth gan yr ODPM sy'n canolbwyntio ar y risg i fywyd a chyflwyno Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio a fydd yn newid y ddeddfwriaeth ar ddiogelwch tân yn sylfaenol. Bydd cyflwyno trefn archwilio fewnol ategol newydd yn hyrwyddo mwy o gysondeb ac ansawdd yn y gwaith diogelwch tân ar draws Gogledd Cymru.

3.5 Defnyddio'r feddalwedd Technoleg Gwybodaeth (TG) sydd ar gael i'r Gwasanaeth er mwyn gwella'r ffordd mae gwasanaeth yr ochr weithredol yn cael ei gyflenwi trwy fabwysiadu anfon allan ar sail strydoedd yn hytrach na'r ffordd bresennol sef ar sail plwyfi. Bydd hyn yn sicrhau mai'r adnodd priodol agosaf fydd yn cael eu hanfon allan at ddigwyddiad.

3.6 Adolygu'r ffordd mae staff yr ochr weithredol yn cael eu dosbarthu er mwyn cael ffordd gyson ledled Gogledd Cymru i griwio peiriannau rheng flaen ac arbennig.

3.7 Datblygu ymhellach weithio ar y cyd gyda'r gwasanaethau brys eraill yng Ngogledd Cymru, ac ymchwilio i feysydd lle gellir cael budd o fentrau a rheolaeth ar y cyd er mwyn sicrhau canlyniadau i bawb.

4. **CASGLIADAU**

4.1 Bwriad y meysydd uchod yw mynd â Chynllun Risg presennol yr Awdurdod Tân yn ei flaen a dylid edrych arnynt fel ychwanegiadau i'r drefn.

4.2 Roedd ymgynghoriad gyda'r tîm cefnogi a sefydlwyd gan yr ODPM i gynorthwyo'r gwasanaethau tân ac achub gyda phroses y Cynlluniau Risg yn cadarnhau mai'r gofyniad yn yr ail flwyddyn oedd llunio cynllun gweithredu. Nid oes gofyniad i lunio Cynllun Risg llawn.

4.3 Bydd yr ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu yr un fath â'r ymgynghoriad ar Gynllun Risg cyntaf yr Awdurdod Tân, sef "Dweud eich Dweud", yn dilyn y protocolau o ran amser a argymhellwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

5. **<u>ARGYMHELLION</u>**

5.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

5.2 Bod yr aelodau'n ystyried pa ychwanegiadau, gwelliannau neu newidiadau y dylid eu hargymell i'r Awdurdod Tân llawn ym mis Medi ar gyfer eu cynnwys yn y cynllun gweithredu ail flwyddyn drafft i'w lunio ar gyfer ymgynghoriad.